



Ymateb i argymhellion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Ddyfodol Practisau Cyffredinol yng Nghymru

15/09/2026

Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei adroddiad ar ddyfodol practisau cyffredinol yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn darparu ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad ac yn cydnabod pwysigrwydd practisau cyffredinol i wella mynediad, cefnogi gofal yn agosach at y cartref ac adeiladu system iechyd a gofal sy'n fwy cynaliadwy.

Dylid darllen yr ymateb hwn ochr yn ochr â gwaith ehangach i gryfhau gwasanaethau meddygon teulu, gwella mynediad digidol, cefnogi atal a symud mwy o ofal i leoliadau cymunedol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i bob un o argymhellion y Pwyllgor.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Ymatebion i'r 18 o argymhellion	5
Argymhelliad 1	5
Argymhelliad 2	5
Argymhelliad 3	5
Argymhelliad 4	6
Argymhelliad 5	7
Argymhelliad 6	7
Argymhelliad 7	8
Argymhelliad 8	9
Argymhelliad 9	9
Argymhelliad 10	10
Argymhelliad 11	10
Argymhelliad 12	11
Argymhelliad 13	11
Argymhelliad 14	12
Argymhelliad 15	12
Argymhelliad 16	13
Argymhelliad 17	14
Argymhelliad 18	14
3. Datganiad i Gloi	16

1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ddyfodol practisau cyffredinol yng Nghymru. Daw'r adroddiad ar adeg pwysig ar gyfer iechyd a gofal. Practisau cyffredinol yw'r prif fynedfa i ofal y GIG o hyd, ond mae'n gweithredu mewn system sy'n wynebu pwysau parhaus o ganlyniad i'r galw, cyfyngiadau ar y gweithlu, anghenion newidiol y boblogaeth, a'r angen i ddarparu mwy o ofal y tu allan i leoliadau ysbyty. Mae argymhellion y Pwyllgor yn adlewyrchu'r pwysau hynny, tra hefyd yn cydnabod y cyfle i gryfhau practisau cyffredinol fel rhan o fodel gofal mwy ataliol, integredig a chymunedol.

Ysbryd yr adroddiad yw na ellir trin practisau cyffredinol fel gwasanaeth annibynnol neu fel falf gwasgedd ar gyfer gweddill y GIG. Mae eu dyfodol yn dibynnu ar weithredu ar draws y system gyfan: cyllid teg a thryloyw, modelau gweithlu cynaliadwy, adeiladau gwell, defnydd mwy effeithiol o offer digidol, perthnasoedd cryfach rhwng gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd, a ffocws pendant ar leihau anghydraddoldebau. Mae hefyd angen diwygio i gefnogi practisau a chleifion, gan leihau baich gweinyddol diangen wrth amddiffyn diogelwch, llywodraethu a safonau proffesiynol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i adnewyddu iechyd a gofal drwy ddelio â phwysau uniongyrchol wrth greu'r amodau ar gyfer cael gwell cydbwysedd rhwng atal a thrin salwch. Mae hyn yn cynnwys symud ffocws ac adnoddau tuag at well iechyd y cyhoedd, gwella mynediad at wasanaethau o ddydd i ddydd a ddarperir gan feddygon teulu, a chefnogi integreiddio llawnach rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn cynnwys gwella mynediad trwy wasanaethau digidol a theleiechyd, adolygu a diwygio'r model cyllido ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu, cefnogi modelau mwy cydweithredol ar gyfer practisau cyffredinol, lleihau biwrocratiaeth, a gwella integreiddio â'r system iechyd a gofal ehangach.

Bydd diwygio digidol a data yn hwylusydd pwysig o well gofal. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r ffordd rydym yn defnyddio technoleg, gwella Ap GIG Cymru, cryfhau safonau data iechyd, ei gwneud hi'n haws rhannu data ar draws byrddau iechyd, cysylltu cofnodion ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, a datblygu strategaeth ddigidol hirdymor ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru. Mae'r meysydd hyn yn berthnasol i nifer o argymhellion y Pwyllgor, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r gallu i ryngweithio, baich gweinyddol, mynediad a gweithio aml-ddisgyblaethol.

Gyda'i gilydd, mae'r adroddiad a rhaglen waith ehangach Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at drywydd cyson. Rhaid cryfhau practisau cyffredinol nid yn unig i wella apwyntiadau, ond i gefnogi rhoi cymorth yn gynharach, rheoli cyflyrau

hirdymor yn well, cael mynediad mwy cyson, gwasanaethau cymunedol cryfach a llai o bwysau y gellir ei osgoi ar ysbytai. Nid y nod yw symud llwyth gwaith o un rhan o'r system i'r llall, ond yn hytrach ailgynllunio gofal fel bod cleifion yn derbyn y gefnogaeth iawn, gan y gweithiwr proffesiynol iawn, yn y lleoliad iawn, gyda gwell parhad ac atebolrwydd cliriach.

Felly, mae'r ymatebion yn y ddogfen hon yn nodi dull ymarferol a chymesur. Gellir symud ymlaen â rhai argymhellion gan ddefnyddio mecanweithiau cytundebol, gweithlu, digidol a chynllunio presennol. Bydd angen ymgysylltu ymhellach â GIG Cymru, Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, cyrff proffesiynol, awdurdodau lleol a chynrychiolwyr cleifion, ochr yn ochr ag ystyried fforddiadwyedd, dilyniant a chyflawnadwyedd yn ofalus. Dull gweithredu cyffredinol Llywodraeth Cymru yw cefnogi model practisau cyffredinol mwy gwydn, teg a modern, wedi'i wreiddio mewn gweithgarwch atal, gwell mynediad, cydweithredu a gofal yn agosach at y cartref.

2. Ymatebion i'r 18 o argymhellion

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod pob prosiect peilot gofal sylfaenol yn cael ei ategu gan gynllun gweithredu cadarn sy'n nodi sut y bydd y prosiect llwyddiannus yn parhau i gael ei gyflawni a'i ariannu, unwaith y bydd cyfnod cychwynnol y prosiect peilot a'r cyllid wedi dod i ben.

Ymateb: Derbyn

Pan fydd Clystyrau yn penderfynu buddsoddi cyllid a ddirprwywyd iddynt mewn prosiectau i arbrofi gyda ffyrdd newydd ac arloesol o ddiwallu anghenion iechyd eu poblogaethau, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cael gwerthusiad rhesymol a chymesur. Lle profwyd bod y prosiectau'n effeithiol, mae angen i Fyrddau Iechyd ystyried buddsoddi cyllid craidd i brif ffrydio'r arloesedd. Mae hyn wedyn yn rhyddhau cyllid i Glystyrau ei ail-fuddsoddi.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

O fewn 100 diwrnod ar ôl dod i rym, dylai Llywodraeth newydd Cymru ysgrifennu at ein pwyllgor olynol yn nodi ei chynlluniau ar gyfer ailbroffilio gwariant ac adnoddau rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd, a'r amserlenni ar gyfer gwneud hynny.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae gwaith wedi dechrau i gefnogi ailgydbwyso adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol, gan adlewyrchu'r ymrwymiad i symud ffocws ac adnoddau tuag at atal a gofal cymunedol. Cynhaliwyd uwchgynhadledd ar 18 Mehefin gyda holl Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd i gytuno ar gamau gweithredu ymarferol ar gyfer cyflawni drwy'r Rhaglen Drawsnewid Cymunedol o'r Cychwyn. Erbyn 30 Hydref, bydd Byrddau Iechyd yn cyflwyno eu cynlluniau ar sut y byddant yn cynyddu gwariant ar ofal sylfaenol a gofal cymunedol 0.5% o 2027-28.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

O fewn 100 diwrnod ar ôl dod i rym, dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at ein pwyllgor olynol i gadarnhau ei hymrwymiad i adolygu'r fformiwla dyrannu swm craidd a'r amserlenni ar gyfer hyn.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Adolygu fformiwla dyrannu swm craidd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yw un o'r ymrwymadau ar gyfer y 100 Diwrnod Cyntaf, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei hymrwymiad i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Mae grŵp teirochrog sy'n cynnwys cynrychiolwyr o GIG Cymru, Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi comisiynu rhaglen ymchwil aml-flwyddyn fesur cam i adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn a chymesur i gefnogi unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol. Mae hyn yn dilyn gwaith cychwynnol y gweithgor teirochrog cyfnod byr a sefydlwyd drwy gytundeb contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol 2025-26, gyda chynrychiolaeth o GIG Cymru, Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ymhellach opsiynau ar gyfer symud i drefniant ariannu amlflwyddyn ar gyfer meddygaeth deulu.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am gynllunio darpariaeth gwasanaethau iechyd, gan gynnwys practisau cyffredinol, drwy Gynlluniau Tymor Canolig Integredig gydag chyfnod cynllunio o o leiaf tair blynedd. Dylai'r cynlluniau hynny gefnogi canlyniadau gwell a newid cynaliadwy tuag at atal, integreiddio a gofal cymunedol. Bydd blaenoriaethau cynllunio yn y dyfodol yn cynnwys gweithredu'r Rhaglen Drawsnewid Cymunedol o'r Cychwyn, lle bydd practisau cyffredinol yn chwarae rhan sylweddol. Felly, disgwylir i fyrddau iechyd nodi cynlluniau buddsoddi ar gyfer practisau cyffredinol ochr yn ochr â gwasanaethau eraill yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Bydd symud i drefniadau cyllido aml-flwyddyn mwy diogel, fodd bynnag, yn parhau i fod yn ddibynnol ar amseru a sicrwydd y setliadau cyllido yn y dyfodol gan Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth newydd Cymru ddatblygu cynllun gweithlu ar gyfer meddygaeth deulu i sicrhau bod cyflenwad digonol o feddygon teulu newydd a chlinigwyr eraill i ateb y galw yn y dyfodol. Dylai'r cynllun hwn fod yn rhan o ddull ehangach, cydgysylltiedig o ystyried y gweithlu ehangach ar draws GIG Cymru, a chefnogi'r agenda drawsnewid o symud gofal yn nes at y cartref.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae opsiynau yn cael eu datblygu i gyflawni'r ymrwymiad i ddarparu hyd at 100 o feddygon teulu cyflogedig ychwanegol. Mae'r gwaith hwn yn ystyried sut i sicrhau capasiti ychwanegol net o ran meddygon teulu, osgoi dadleoli o'r ddarpariaeth bresennol a sicrhau bod y capasiti ychwanegol yn cefnogi gwell mynediad, parhad a chynaliadwyedd gwasanaeth. Mae'r llwybrau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys llwybrau addysg, hyfforddiant a chymrodoriaeth; symud o wasanaeth locwm i gontract parhaol; capasiti cadw, dychwelyd a diwedd gyrfa; a recriwtio yn rhyngwladol i gronfa atodol os nad yw llwybrau domestig yn ddigonol.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth newydd Cymru ddatblygu strategaeth genedlaethol i ymwreiddio gwaith tîm amlddisgyblaethol effeithiol ym maes gofal sylfaenol ledled Cymru. Dylai hyn gynnwys modelau gwasanaeth safonol, cyllid cynaliadwy, llwybrau atgyfeirio clir, a buddsoddiad yn y seilwaith ffisegol a digidol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'r Rhaglen Drawsnewid Cymunedol o'r Cychwyn yn datblygu model amlbroffesiynol cenedlaethol gyda ffocws ar atal a rheoli iechyd y boblogaeth, rheoli cyflyrau cronig a gofal brys, yr un diwrnod. Mae practisau cyffredinol yn ganolog i gynllunio a chyflwyno'r model hwn mewn cydweithrediad â gwasanaethau eraill y GIG.

Er mwyn cefnogi datblygiad y gweithlu, mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn gweithredu ei Gynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, gan gynnwys camau i gryfhau gweithio amlbroffesiynol. Mae hyn ochr yn ochr â datblygu strategaeth gweithlu tymor hwy GIG Cymru, a fydd yn nodi ymrwymïadau i

sicrhau bod gan GIG Cymru y bobl, y sgiliau a'r gallu cywir yn y lleoedd cywir i ddiwallu anghenion iechyd newidiol y boblogaeth, gyda ffocws canolog ar brofiad staff, llesiant, cadw staff a diwylliant.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â byrddau iechyd a phractisau meddygon teulu, ddatblygu ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd i:

- *hyrwyddo gwell dealltwriaeth o rôl y tîm amlddisgyblaethol a'i fanteision ehangach i iechyd a phrofiad cleifion;*
- *hyrwyddo rôl staff desg flaen practisau cyffredinol wrth frysennu cleifion i sicrhau eu bod yn gweld yr ymarferydd mwyaf priodol.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae adroddiad y Pwyllgor yn nodi mater pwysig sy'n ymwneud â disgwyliadau a dealltwriaeth y cyhoedd o dimau amlddisgyblaethol a llywio gofal mewn practisau cyffredinol. Bydd angen tystiolaeth feintiol bellach i ddeall pa mor eang yw'r ymddygiadau a nodwyd gan y Pwyllgor ac i lywio amcanion cyfathrebu ac ymddygiad clir. Gallai hyn gefnogi gwaith cwmpasu a chasglu mewnwelediad cychwynnol ar gyfer gwaith cyfathrebu yn y dyfodol. Bydd cyflawni hefyd yn dibynnu ar y cynnydd yn erbyn argymhelliad 6, gan y bydd angen mwy o gysondeb mewn modelau tîm amlddisgyblaethol cyn y gall negeseuon cyhoeddus cenedlaethol fod yn glir ac yn effeithiol. Mae'r gweithgarwch presennol, gan gynnwys Helpwch Ni i'ch Helpu Chi, yn darparu llwybr posibl ar gyfer negeseuon yn y dyfodol ar fynediad at ofal sylfaenol a rôl staff y ddesg flaen wrth gefnogi brysennu priodol. Byddai angen i unrhyw ymgyrch yn y dyfodol gynnwys trefniadau gwerthuso clir, gan gynnwys data am fynediad ac ymddygiad lle bo hynny'n berthnasol, i asesu a yw gweithgarwch cyfathrebu yn gwella dealltwriaeth ac yn newid sut mae pobl yn cael mynediad at bractisau cyffredinol. Byddai angen i negeseuon cenedlaethol hefyd gael eu cefnogi gan gyfathrebu lleol, dan arweiniad byrddau iechyd a phractisau unigol, fel bod gwybodaeth yn adlewyrchu modelau gwasanaeth a phractisau lleol, a'r ffordd y mae cleifion yn cael mynediad at ofal yn eu cymuned eu hunain.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth newydd Cymru gadarnhau ei safbwynt o ran rhaglen Cenedl Marmot a mabwysiadu wyth egwyddor Marmot yn gyson ar draws pob adran.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mewn Datganiad Llafar ar 15 Gorffennaf 2026, nododd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd Cyhoeddus ac Ataliol ymrwymiad i sicrhau bod penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn cael eu llywio gan ffocws ar y cyd ar iechyd y cyhoedd ac iechyd ataliol. Er mwyn cefnogi'r uchelgais hon, mae trefniadau llywodraethu traws-lywodraethol yn cael eu sefydlu ar lefel swyddogol a gweinidogol i ymgorffori atal ar draws polisi a chyflawni. Mae'r Dirprwy Weinidog hefyd wedi ailddatgan ymrwymiad i hyrwyddo tegwch iechyd drwy adeiladu ar ddull Lleodedd Marmot drwy fenter Tegwch Iechyd Cymru, gan dynnu ar yr hyn a ddysgwyd ac a gyflawnwyd yn Nhorfaen a Blaenau Gwent. Mae'r datblygiadau hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gweithredu egwyddorion Marmot yn barhaus ac ar gyfer dull cydgysylltiedig o leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru. Mae'r prosesau ar gyfer monitro cynnydd ac adrodd ar ganlyniadau i'w cadarnhau.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth newydd Cymru edrych ar ffyrdd o gymell meddygon teulu i ymgymryd â chyfleoedd mewn cymunedau mwy difreintiedig neu gymunedau sy'n cael eu tanwasanaethu.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn cynnwys ffocws ar ddenu, recriwtio a chadw, gyda chefnogaeth cynllunio'r gweithlu ac ymyriadau wedi'u targedu i wella cynaliadwyedd y gweithlu. Bydd cynlluniau cymhelliant recriwtio presennol yn cael eu hadolygu ac, lle bo hynny'n briodol, eu hailfodelu i gefnogi recriwtio mewn meysydd lle ceir anhawster recriwtio iddynt. Bydd hyn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â gwaith ehangach i gryfhau gallu practisau cyffredinol a sicrhau bod ymyriadau'r gweithlu yn cefnogi mynediad tecach at wasanaethau mewn cymunedau difreintiedig a'r rhai sy'n cael eu tanwasanaethu. Dylid disgwyl i fyrdau iechyd hefyd asesu anghenion lleol ac ystyried pa gamau y gellir eu cymryd, gan weithio gyda phractisau a chlystyrau, i gefnogi recriwtio, cadw a

chynaliadwyedd gwasanaethau mewn ardaloedd lle mae'r pwysau ar ei uchaf ar y gweithlu.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth newydd Cymru ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd sefydlu mecanweithiau ffurfiol i gryfhau perthnasoedd a chyd-ddealltwriaeth rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau, trwy'r uwchgynhadledd gofal sylfaenol ym mis Mehefin a'r ymrwymiad ehangach i symud ffocws ac adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol. Mae'r dull gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer y trawsnewidiad hwn a bydd yn ymgorffori practisau cyffredinol o fewn gwasanaethau cymunedol ehangach. Mae meddygon teulu yn rhan annatod o gyflawni'r fframwaith a byddant yn parhau i weithredu ar draws pob un o'r tri trawsnewidiad o fewn y model; byddant yn cefnogi atal ac ymyrraeth gynnar, yn rheoli cyflyrau cronig, ac yn darparu a chydlynu gofal brys a gofal yr un diwrnod. Wrth i'r gwaith o'i roi ar waith fynd rhagddo, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â'r proffesiwn a rhanddeiliaid ehangach i sicrhau bod y fframwaith yn cryfhau perthnasoedd ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd tra'n cadw'r hyblygrwydd sy'n ganolog i bractisau cyffredinol effeithiol.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru fandadu datblygu cytundebau ffurfiol rhwng gofal eilaidd a gofal sylfaenol ar gyfer unrhyw wasanaethau a drosglwyddir allan o ysbytai.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Rhaid i'r trosglwyddo arfaethedig o wasanaethau i leoliadau sylfaenol a chymunedol fod yn seiliedig ar gydweithrediad system gyfan. Nid symud neu ailddosbarthu gweithgarwch o ysbytai i bractisau cyffredinol yn unig yw hyn. Bwriad y dull gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn yw cefnogi hyn drwy gryfhau'r berthynas rhwng gwasanaethau arbenigol, cymunedol a phractisau cyffredinol, fel bod

arbenigedd yn gallu cefnogi practisau cyffredinol yn well wrth reoli pobl yn ddiogel ac yn effeithiol yn y gymuned.

Mae'r model Gwasanaeth Cydweithredol dan Gyfarwyddyd yn cael ei ddatblygu fel un mecanwaith cytundebol a gweithredol i gefnogi'r newid hwn, gan alluogi practisau i weithio gyda'i gilydd ar lefel ôl troed cydweithredol a darparu llwybr ymarferol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau dethol ar raddfa fawr mewn lleoliadau cymunedol. Ni fydd yn disodli partneriaethau meddygon teulu na contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol craidd ond bydd yn ychwanegu haen gydweithredol lle gellir comisiynu, ariannu a llywodraethu gwasanaethau ar wahân. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod unrhyw drosglwyddiad gofal a gynlluniwyd yn cael ei gefnogi gan gyfrifoldebau clir, adnoddau priodol a threfniadau llywodraethu cadarn.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth newydd Cymru hyrwyddo'n gryf yr angen i bob bwrdd iechyd gynnwys uwch arweinydd penodedig ar gyfer gofal sylfaenol yn ei dîm gweithredol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r manifestio yn nodi ymrwymiad i greu swydd cyfarwyddwr Cymru gyfan ar gyfer trefniadau gofal y tu allan i'r ysbyty. Mae'r ddogfen 100 Diwrnod Cyntaf yn nodi hyn fel cam gweithredu cynnar ochr yn ochr â gwaith i symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chryfhau gwasanaethau cymunedol. Bydd y rôl hon yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol gliriach ar gyfer gofal sylfaenol, cymunedol a gofal y tu allan i'r ysbyty. Ar lefel bwrdd iechyd, mae yna uwch arweinwyr sydd eisoes yn gyfrifol am ofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol a swyddogaethau cynllunio cysylltiedig. Bydd y rôl genedlaethol newydd yn ategu'r trefniadau presennol hynny a bydd yn cael ei hystyried yng nghyd-destun cefnogi atebolrwydd cryfach, arweinyddiaeth gliriach o fewn y system a chyflawni mwy cyson ledled Cymru.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth newydd Cymru gomisiynu gwerthusiad annibynnol o bractisau a reolir gan fyrddau iechyd.

Ymateb: Derbyn yn Rhannol

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi'r argymhelliad hwn. Bydd y diweddariad sydd ar ddod i ganllawiau'r Panel Practisau Gwag yn cryfhau'r disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer penderfyniadau ar swyddi mewn practisau, gan gynnwys lle mae practis a reolir gan fwrdd iechyd yn cael ei ystyried neu ei sefydlu. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd nodi, olrhain ac adrodd cost practisau a reolir, gan gynnwys y gweithlu, eiddo, ystadau, locwm, gorbenion corfforaethol a chostau pontio. Bydd hyn yn gwella tryloywder ac yn cefnogi gwell asesiad o fforddiadwyedd a gwerth am arian. Gellid ystyried gwerthusiad pellach yng ngoleuni'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

O fewn 100 diwrnod ar ôl dod i rym, dylai Llywodraeth newydd Cymru ysgrifennu at ein pwyllgor olynol i gadarnhau ei hymrwymiad i barhau â'r gwaith i adolygu trefniadau ar gyfer meddygon dosbarthu a'r amserlenni ar gyfer hyn.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r rhaglen ddiwygio dosbarthu yn parhau i gefnogi cynaliadwyedd practisau dosbarthu, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, ac yn moderneiddio'r trefniadau ariannu, ansawdd a seilwaith sy'n sail i wasanaethau dosbarthu. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar fframwaith hirdymor mwy cydlynol, gan gynnwys moderneiddio digidol a chyfalaf wedi'i dargedu, diwygio tâl meddygon dosbarthu, integreiddio gofynion ansawdd i'r model talu, ac ystyried materion ad-dalu. Bydd amserlenni yn cael eu cadarnhau wrth i'r cynigion manwl gael eu datblygu.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth newydd Cymru gomisiynu adolygiad cynhwysfawr o'r ystad meddygaeth deulu.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. O dan gontract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, mae contractwyr annibynnol yn gyfrifol am ddarparu adeiladau addas ar gyfer darparu gwasanaethau ac yn cael eu had-dalu am gostau eiddo drwy Gyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol - Costau Mangre) (Cymru) 2015. Mae

adolygiad o'r Cyfarwyddydau wedi'i gynnal drwy grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn cynnwys Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu, byrddau iechyd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae canlyniad yr adolygiad yn cael ei gwblhau ac, yn amodol ar gliriad gweinidogol, bydd yn darparu strwythur newydd ar gyfer ariannu grantiau gwella, gyda ffocws penodol ar gydymffurfiaeth statudol a safonau gofynnol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd adolygu eu hystad bresennol yn erbyn y safonau hynny ledled Cymru. Mae'r uchelgais yn y tymor hwy i symud gweithgarwch allan o'r ysbyty hefyd yn cael ei gefnogi gan y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso, sy'n darparu cyllid cyfalaf ar gyfer canolfannau a hybiau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, ac ar gyfer gofal yn agosach at y cartref. Mae hyn yn cynnwys gofal sylfaenol, adsefydlu, gwasanaethau iechyd ataliol, iechyd meddwl, iechyd menywod, canolfannau anabledd dysgu a niwrowahaniaeth, gwasanaethau dementia, gwasanaethau gofal plant a blynyddoedd cynnar, a gofal cymdeithasol. Mae'r cynlluniau hyn yn cefnogi canolbwynt y model Cartref-Hyb-Ysbyty o ddarparu gwasanaethau.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth newydd Cymru ddatblygu amserlen glir a fframwaith atebolrwydd ar gyfer cyflawni gwelliannau digidol a rhyngweithredadwyedd ar draws GIG Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd rhyngweithredadwyedd digidol wrth gefnogi gofal diogel, effeithiol a chydgyssylltiedig ar draws GIG Cymru. Mae gwella'r ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd yn hanfodol i ddarparu gwell gofal i gleifion a chefnogi gwasanaethau mwy integredig. Mae strategaeth ddigidol a data newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei datblygu a bydd yn darparu'r cyfeiriad strategol tymor hwy ar gyfer trawsnewid digidol ledled Cymru. Ochr yn ochr â hyn, mae gwaith eisoes ar y gweill i wella rhyngweithredadwyedd, moderneiddio systemau gofal sylfaenol, cefnogi llwyfannau digidol a rennir, cyflwyno presgripsiynu electronig a gwella mynediad at wasanaethau digidol i gleifion a staff. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid GIG Cymru i sicrhau bod trefniadau buddsoddi a chyflawni digidol yn cefnogi'r uchelgeisiau hyn ac yn darparu goruchwyliaeth glir o'r cynnydd a'r canlyniadau.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth newydd Cymru adolygu gofynion gweinyddol a rheoleiddiol sydd wedi dyddio sy'n rhwystro trawsnewid digidol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai gofynion gweinyddol a rheoleiddiol gefnogi gwasanaethau modern sydd wedi'u galluogi yn ddigidol. Rydym yn cydnabod y gall prosesau sydd wedi dyddio neu sy'n rhy gymhleth greu baich diangen i gleifion, staff a darparwyr gwasanaethau, a gallant gyfyngu ar y gallu i gyflawni gwelliannau yn gyson ledled Cymru.

Mae symud i un cyflenwr system glinigol meddygon teulu yng Nghymru yn rhoi cyfle pwysig i symleiddio prosesau a chefnogi cyflenwi cenedlaethol mwy cyson. Bydd yn ei gwneud hi'n haws datblygu a gweithredu gwelliannau ar sail Unwaith i Gymru, yn lleihau'r amrywiad rhwng practisau a byrddau iechyd, ac yn cefnogi gwell rhyngweithredadwyedd â gwasanaethau digidol ehangach GIG Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda GIG Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, awdurdodau lleol, cynrychiolwyr proffesiynol a phartneriaid eraill i nodi rhwystrau gweinyddol neu reoleiddiol y mae angen eu hadolygu. Bydd angen i unrhyw newidiadau gynnal safonau priodol o lywodraethiant, llywodraethiant gwybodaeth a diogelwch cleifion, tra'n galluogi system iechyd a gofal fwy effeithlon, cyson ac ymatebol.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth newydd Cymru nodi sut mae'n bwriadu cryfhau'r safonau mynediad presennol i feddygon teulu a chyhoeddi cynllun clir ar gyfer sicrhau bod pob practis yn eu bodloni.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae ymrwymadau mynediad presennol i feddygon teulu yn cael eu hadolygu fel rhan o waith ehangach i wella profiad cleifion, lleihau amrywiad a chefnogi mynediad mwy cyson ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y gall y safonau adlewyrchu llwybrau digidol, ffôn a phersonol i bractisau cyffredinol yn well, gan sicrhau nad yw cleifion nad ydynt yn gallu defnyddio systemau digidol neu nad ydynt yn dymuno defnyddio systemau digidol dan anfantais. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'r ymrwymiad yn y manifest o wella mynediad trwy wasanaethau digidol a theleiechyd. Bydd yn cefnogi llwybrau cliriach a mwy cyson i bractisau

cyffredinol, yn helpu practisau i reoli anghenion brys a rheolaidd yn fwy effeithiol, ac yn cyfrannu at y nod ehangach o'i gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i bobl gael mynediad at feddygon teulu a gwasanaethau gofal sylfaenol cysylltiedig pan fydd eu hangen arnynt.

3. Datganiad i Gloi

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid GIG Cymru, byrddau iechyd, cyrff proffesiynol, cyrff cynrychioli cleifion, a'r cleifion eu hunain i gefnogi gwasanaeth practisau cyffredinol cynaliadwy a gwydn. Rydym yn croesawu adroddiad y Pwyllgor a byddwn yn parhau i weithio ar y cyd i gryfhau gofal sylfaenol a gwella canlyniadau i bobl ledled Cymru.